**"A"**

# CYNGOR CYMDEITHAS BOTWNNOG

Adroddiad o gyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd **Nos Lun 14eg Ebrill, 2025**, yn Festri Capel Rhydbach, Botwnnog o 7.30 p.m. hyd 8.20 p.m.
Presennol: Y Cynghorydd Michael Strain (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Gwenan Griffiths (Is-Gadeiryddes)
Y Cynghorwyr Carys H. Evans, Elin Hughes, Dylan Parry Jones, Glyn Roberts, Efan Thomas, Carys E. Williams, Glenys Williams, Siôn Williams
Y Cynghorydd Gareth Williams (Cynghorydd Pen Draw Llŷn ar Gyngor Gwynedd)
Ymddiheuriad: Iwan J. Williams,

110. **CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD**
**Croesawodd** y Cadeirydd yr aelodau i'r cyfarfod.

111. **DATGAN BUDDIANT PERSONOL**
Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad.

112. **CADARNHAU COFNODION Y CYNGOR A GYNHALIWYD 14eg EBRILL, 2025**
**Cyflwynwyd,** cadarnhawyd ac arwyddwyd cofnodion y Cyngor a gynhaliwyd
14eg Ebrill, 2025.
(Cynigiwyd gan Y Cynghorydd Elin Hughes ac eiliwyd gan Y Cynghorydd Glyn Roberts gyda phawb yn cytuno).
**Materion yn codi**
**Eitem 99 – Lloches bws ym Motwnnog**
**Adroddodd** Y Cynghorydd Gareth Williams (Cyngor Gwynedd) iddo:
**a)** gael gwybod gan Reolwraig Meddygfa Rhydbach, Botwnnog, y byddai paratoi'r ddogfen gyfreithiol ac archwiliadau yn costio £2,000 + TAW gan y byddai angen mynd ar ran o dir y Feddygfa i osod y lloches bws.
**b)** gael ar ddeall gan Gyngor Gwynedd "fod yn rhaid cael 'gap' o 1.2 metr ar y palmant i basio'r lloches," ond nad oedd hyn yn bosibl ym Motwnnog. Adroddodd ymhellach iddo sylwi ar loches mewn pentref cyfagos a dim ond 0.8 metr o 'gap' oedd yno.

**Penderfynwyd** gohirio ar y pryd gan ofyn i'r Cynghorydd Gareth Williams (Cyngor Gwynedd) wneud ymholiadau:
1) gyda Chyngor Gwynedd ynglyn a'r hyn mae wedi ei ddarganfod ynglyn a'r 'gap' mewn pentref cyfagos ac a yw'n bosibl cael dod dros hyn ym Motwnnog.
2) a oes safle arall yn y pentref lle gellid gosod y lloches.

**Eitem 106 – Memorandwm o Ddealltwriaeth**
**Derbyniwyd** e-bost gan Sian Parri:
"Mi fedri adrodd yn ol yn y Cyngor, fod Tudweiliog, Aberdaron, Nefyn a Penrhyndeudraeth wedi anfon at Gyngor Gwynedd yn gofyn iddy nhw ein cefnogi i wneud Polisi Gosod Lleol ar BOB ty cymdeithasol yn yr ardal. Tudweiliog oedd y cyntaf ac mi anfonwyd at Carys Fôn yn yr Adran Tai efo copi at Dafydd Gibbard Mark Drakeford a lot o bobl eriaill. Mi fedra Botwnnog wneud hyn hefyd os ydy nhw eisiau a os bydda nhw mi wna i anfon y rhestr ebysd a helpu chdi i anfon neu mi fedaf ei anfon ar eich rhan. Mi fyddi di hefyd yn medru rhoi gwybod fy mod i wedi deall nad oes yna bolisi gosod lleol yng Nghongl Meinciau. Mi oedd Steffan Smith wedi synnu am ei fod o wedi cael yr argraff fod yna un.

Opsiwn arall i Botwnnog ydi peidio a gwneud dim am rwan a aros i weld be ddaw. Mae Cyngor Gwynedd yn deud bod nhw wedi mynd am Gyngor Cyfreithiol hefyd."
**Penderfynwyd** cytuno a'r opsiwn cyntaf a'r Clarc i anfon e-byst at y Mudiadau a nodwyd.

113. **CEISIADAU CYNLLUNIO**
Ni ddaeth unrhyw gais i law.

114. **MATERION FFYRDD A LLWYBRAU**
**Penderfynwyd**
a) anfon at Beiriannydd Rhanbarthol Cyngor Gwynedd yn tynnu ei sylw at gyflwr gwael y ffordd o Begopa i lawr i bentref Bryncroes.
b) anfon at y Swyddog Llwybrau, Cyngor Gwynedd, yn tynnu ei sylw at gyflwr y llwybr cyhoeddus sy'n arwain o Bengopa i lawr at Gwm Eithin, Bryncroes – angen arwydd i ddynodi'r llwybr ac hefyd y gamfa wedi ei dinistrio.

115. **AWDURDOD I DALU**
Awdurdodwyd y taliad a ganlyn:
Cwmni Yswiriant Zurich - £895.40 (siec 200861)

116. **CEISIADAU AM GYFRANIADAU ARIANNOL**
**Cyflwynwyd** ceisiadau am gyfraniad ariannol a **phenderfynwyd** cyfrannu fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Apêl Gisda 40 | £100 (siec 200862) |
| Adran yr Urdd Botwnnog | £100 (siec 200863) |
| Clwb Snwcer Sarn | £200 (siec 200864) |
| Cyfeillion Mynwent Llandegwnning | £125 (siec 200865) |
| Pwyllgor Rhanbarth Urdd Gobaith Cymru | £ 50 (siec 200866) |

**Penderfynwyd** ymhellach :
a) gwneud ymholiadau gyda Un Llais Cymru a oes gan y Cyngor hawl i gyfrannu i Gymdeithas Rieni Pont y Gof, Botwnnog.
b) Peidio cyfrannu i Dawns i Bawb a Rhanbarth Cymru o Forwyr, Awyrenwyr a'u teuluoedd – elusen y Lluoedd Arfog.

117. **YSGOL DDEINTYDDOL YM MANGOR**
**Er gwybodaeth derbyniwyd** ymateb gan Sian Gwenllian AS Arfon ac hefyd Simon Parker, Llywodraeth Cymru, yn datgan eu diolch am gefnogaeth y Cyngor i sefydlu Ysgol ddeintyddol ym Mangor.

118. **ARCHWILIO'R CYFRIFON**
**Derbyniwyd** gwybodaeth gan Archwilio Cymru ynglyn a'r dyddiadau cyflwyno'r ffurflen flynyddol a.y.
**Penderfynwyd** ysgrifennu at Luned Fôn Jones, Cyngor Gwynedd, yn gofyn iddynt archwilio'r cyfrifon ar ein rhan.

119. **SEFYLLFA ARIANNOL**
**Nododd** y Clarc fod yna :
£2,897.34 yng nghyfrif y fynwent ar 31ain Mawrth, 2025
£5,626.53 yn y cyfrif cyfredol ar 31ain Mawrth, 2025.

120. **AIL GYFRARFOD O GYNGHORAU CYMUNED A THREF PEN LLŸN**

**Cyflwynwyd** gwybodaeth gan y Cynghorydd Carys E. Williams ar y cyfarfod fu yn Neuadd Goffa, Sarn, ar 19eg Mawrth, 2025, lle trafodwyd cael cynllun i ardal Pen Llŷn a nodir isod rai o'r syniadau drafodwyd:

- "Tai ar gyfer pobl ifanc a lleol
- Lobio i newid cynllun Gwynedd i helpu pobl lleol
- Lobio ar bethau cyffredin i'r cynghorau e.e. Lobio'r Llywodraeth am osod tai
- Defnyddio arian treth i adeiladu tai i bobl leol tebyg i Ymddiriedolaeth tref Nefyn.
- Datblygu swyddi safonol
- Gwasanaeth warden cŵn ar draws yr ardal
- Trafnidiaeth gyhoeddus gan ehangu O ddrws i ddrws
- Prosiect yn ymwneud a sbwriel - codi ymwybyddiaeth, casglu ac ati
- Prosiect yn ymwneud a hen fynwentydd a rhai newydd
- Sefydlu gwasanaeth cefnogaeth i bobl -e.e. Rhai sydd wedi colli anwyliaid, grwpiau henoed a bwyd, harddu pentrefi, siopau cymunedol
- Canfod arferion da fel sydd gan Antur Aelhaearn a datblygu prosiectau cyffelyb mewn cymunedau'r ardal
- Creu cyfrif ar y cyd i gyflogi swyddogion gwneud ceisiadau grant, gweinyddu, ac ati
- Cynorthwyo i dyfu mentrau presennol i gryfhau ac ehangu e.e. Menter y Plu
- Cael mwy o lais cyngor cymuned gyda cheisiadau cynllunio a materion gyda phwysigrwydd cadw a chryfhau'r iaith Gymraeg (roedd gan Sian Parry wybodaeth ddiddorol bwysig am yr hawl i roi amodau iaith ar gynlluniau tai lleol).

Er symud ymlaen penderfynwyd fod y Swyddog, Arfon Hughes Cymunedoli, yn cysylltu â phob Cyngor er ceisio cael eu barn ar sut i symud ymlaen a rhoddwyd y ddau gynnig isod i'w hystyried:

"Cynnig 1 - Ymgorffori fel cymdeithas gydweithredol gyfreithiol gyda Chadeirydd, Trysorydd ac Ysgrifennydd gyda 2 gynrychiolydd o bob cyngor cymuned ar y bwrdd (os yn haws, gall cynghorau ddewis unigolion o'u hardal os nad oes diddordeb gan gynghorwyr i ymwneud a'r fenter)

Cynnig 2 - Cyfarfod fel cynrychiolwyr y cynghorau i drafod materion sydd wedi eu nodi heb ymgorffori fel cymdeithas gyfreithiol bob chwarter er mwyn lobio ac i gydweithio ar brosiectau perthnasol."

**Penderfynwyd** cefnogi'r cynnig 1 a hysbysu'r Swyddog o hynny.

121. **IS-BWYLLGOR IAITH CYNGHORAU CYMUNED**

**Cyflwynwyd** gwahoddiad gan Sian Parri i anfon cynryhiolydd/wyr i gyfarfod o'r is-bwyllgor uchod yng Nghapel Penycraig, Llangwnnadl, ar 21ain Ebrill. Nododd fod Y Cynghorydd Siôn Williams ar yr is-bwyllgor yn barod.

**Mynegodd** Y Cynghorydd Elin Hughes y byddai yn barod i gynrychioli'r Cyngor ar yr is-bwyllgor.